Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ☎ 029 2043 1700 📠 029 2043 1701
🕷 www.wcva.org.uk ☎ 0800 2888 329

Pobl ifanc yn rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned trwy gynllun gwirfoddoli

Mae cymunedau ar draws y wlad yn dod yn fannau gwell i fyw, diolch i gynllun grantiau arloesol sy'n helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau cymdeithasol.

Mae rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn cefnogi gwirfoddolwyr ifanc i gefnogi yn eu tro blant ysgol ifanc, pobl hyn a throseddwyr ifanc – yn ogystal â'u helpu i ennill sgiliau a chymwysterau.

Rheolir Gwirfoddolwyr y Mileniwm yng Nghymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid Gwirfoddol Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r rhaglen, sy'n annog pobl ifanc i ymuno â chyfoeth o weithgareddau cymunedol, yn cydnabod ymroddiad gwirfoddolwyr gyda dyfarniad a gefnogir gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac a lofnodir gan y Prif Weinidog, Rhodri Morgan.

Aeth y gwobrau diweddaraf i Fanc Ieuenctid Sir Benfro, Ysgol Gyfun Heolddu, Cyngor Sgowtiaid Caerdydd a Bro Morgannwg, Y Guddfan a Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Gaerfyrddin.

Mae Gwirfoddolwyr y Mileniwm ym Mhort Talbot yn rhan o dîm sy'n helpu i wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl ifanc yn eu cymuned leol.

Yng nghanolfan adnoddau'r Guddfan (i'r dde) ar gyfer pobl ifanc 11-21 oed, mae Gwirfoddolwyr y Mileniwm sy'n gwirfoddoli fel Gweithwyr Gwybodaeth i Ieuenctid yn rhannu'u sgiliau a'u profiadau drwy wneud gwaith anffurfiol gydag ymwelwyr ifanc, yn ogystal â datblygu a chyflwyno gweithdai addysgol sy'n adlewyrchu'u diddordebau.

Maent hefyd yn cefnogi sesiynau galw heibio fin nos sy'n darparu amgylchedd diogel, cyfeillgar a chroesawgar, rhaglenni gweithgareddau a gwyliau sy'n cynnwys sesiynau galw heibio ychwanegol; celf a chrefft, gweithgareddau chwaraeon a theithiau; maent yn helpu i gyflwyno gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol mewn ysgolion lleol; yn cynrychioli anghenion a barn pobl ifanc a gwirfoddolwyr ar Grwp Ymgynghorol Ieuenctid y Guddfan.

Mae gwybodaeth am y rownd nesaf o grantiau Gwirfoddolwyr y Mileniwm i'w chael gan Leah Doherty, Cydlynydd Gwirfoddolwyr y Mileniwm, ar 029 2043 1763, ldoherty@wcva.org.uk.

Daliwch y byg cyllid ar ein gwefan!

Erbyn hyn, gall grwpiau gwirfoddol sy'n poeni am effaith llai o gyllid ddefnyddio adnodd newydd i'w helpu i sicrhau dyfodol cynaliadwy.

Dros fisoedd yr haf, mae aelodau tîm cyllid cynaliadwy WCVA wedi bod yn ddiwyd dros ben yn paratoi gwefan newydd sy'n rhoi gwybodaeth ymarferol i fudiadau gwirfoddol er mwyn iddynt sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros dymor hir.

Mae'r wefan - www.sustainablefundingcymru.org.uk - yn cynnig cyngor am ystod o opsiynau cyllido ac arweiniad i fudiadau sy'n ceisio datblygu ffyrdd entrepreneuraidd o gynhyrchu incwm.

'Gyda chyllid o Ewrop yn diflannu ynghyd â chronfeydd eraill o bosib, mae mudiadau gwirfoddol yn chwilio am ffynonellau eraill o incwm erbyn hyn,' dywedodd Sara Carroll, Swyddog Cyngor ar Gyllid WCVA.

'Nod y wefan yw cyflwyno mudiadau gwirfoddol i'r syniad o gyllid cynaliadwy a chreu siop un stop ar gyfer yr amrywiol opsiynau cyllido sydd ar gael.

Gall y sawl sy'n ymweld â'r safle lwytho gwybodaeth am:

- **Gynllunio busnes a chynllunio strategol**
- **Paratoi strategaeth codi arian gynaliadwy**
- **Grantiau – addas ar gyfer cyllido**
- **Rhoi a chodi arian gan y cyhoedd**
- **Cyllid trwy fenthyciadau**
- **Masnachu**
- **Caffael a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus**
- **Datblygu ar sail asedau**

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Bydd y wefan hefyd yn cyflwyno astudiaethau achos o fudiadau sy'n gweithio tuag at fod yn gynaliadwy, y newyddion diweddaraf yn rheolaidd, manylion amrywiol gyrsiau hyfforddi ac yn cyfeirio ymwelwyr at ffynonellau eraill o gymorth.

Diweddarir y wefan yn rheolaidd a chaiff mudiadau gyfle i ymuno â rhestr e-bost er mwyn tanysgrifio i gylchlythyr cyllido misol sy'n rhad ac am ddim.

Mae Cyllid Cynaliadwy Cymru yn brosiect gan WCVA a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ☎ 029 2043 1700 📠 029 2043 1701
🕷 www.wcva.org.uk ☎ 0800 2888 329

Ymateb WCVA i fesur GIG arfaethedig

Mae WCVA wedi cyflwyno ymateb byr i ymgynghoriad Pwyllgor Gwneud Iawn am Ddiffygion y GIG ar y Mesur Gwneud Iawn am Ddiffygion y GIG (Cymru) arfaethedig.

Roedd yr ymateb yn herio'r datganiad yn nodiadau esboniadol y mesur na fyddai unrhyw effaith ar y sector gwirfoddol. I'r gwrthwyneb, awgrymir y bydd y mesur hwn yn cael effaith sylweddol ar ystod eang o wasanaethau eiriolaeth, cyngor a chefnogaeth annibynnol o fewn y sector gwirfoddol.

Gallai'r rhain, i lawer o bobl, fod y ffynhonnell gyntaf o gymorth ac arweiniad i sawl darpar gwynwr, gan gynnwys y rheini sydd fwyaf agored i niwed, y rheini sy'n anfodlon ymgysylltu â chyrff statudol neu ffynonellau preifat o gyngor.

Roedd yr ymateb yn argymell y dylid ymgymryd ag asesiad manwl o'r effaith debygol ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol a chyngor annibynnol er mwyn sicrhau bod ganddynt yr hyfforddiant a'r capasiti angenrheidiol i ymateb i geisiadau am gymorth yn sgîl y mesur hwn.

Gwefan newydd i ymddiriedolwyr

Mae gan ymddiriedolwyr mudiadau gwirfoddol un ffynhonnell arbenigol o wybodaeth ac arweiniad erbyn hyn yn dilyn lansio gwefan newydd WCVA 'Ymddiriedolwyr a Llywodraethu' yn ddiweddar.

Nod y wefan yw bod yn safle canolog ar gyfer gwybodaeth am bob agwedd ar lywodraethu, yn ogystal â bod yn llwyfan a fydd yn galluogi Ymddiriedolwyr i rannu gwybodaeth a gofyn am gymorth drwy'r fforwm a'r cyfryngau adborth.

Mae'r safle yn cynnwys newyddion ac erthyglau sy'n berthnasol i ymddiriedolwyr a llywodraethu, ac mae'n cyfeirio at ystod o adnoddau buddiol.

Nodir hefyd fanylion hyfforddiant a digwyddiadau perthnasol, a gwybodaeth am gyfleoedd ar gyfer bod yn ymddiriedolwr.

www.trusteewales.org.uk yw cyfeiriad y safle ac os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech chi drafod y cynnwys, cysylltwch â Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol WCVA Enrico Carpanini ar 029 2043 1779 neu anfonwch e-bost at ecarpanini@wcva.org.uk .

Cyfarfod yn arwain at gynnydd mewn aelodaeth

Cynhaliodd Cynghrair Cyflyrau Hirdymor Cymru gyfarfod agored fis diwethaf er mwyn dysgu mwy am y ffyrdd y gallai'r Gynghrair helpu pobl sydd â chyflyrau hirdymor a'r mudiadau sy'n eu cynrychioli. Daeth nifer fawr o gynrychiolwyr o sawl elusen, Cynghreiriau, WCVA a Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r cyfarfod.

Yn y cyfarfod cafwyd cyflwyniadau gan Andrew Misell, Ysgrifennydd Cynghrair Cyflyrau Hirdymor Cymru, David Pink, Prif Weithredwr Cynghrair Cyflyrau Hirdymor y DU, ac Angela Donaldson un o ymddiriedolwyr cyntaf Cynghrair Cyflyrau Hirdymor yr Alban. Roedd eu cyflwyniadau yn llawn cymhelliant ac yn dangos yn glir iawn y ffordd y gall mudiadau gydweithio ar ystod eang o faterion er budd i bawb.

Yn dilyn y cyfarfod hwn, mae'r Gynghrair wedi gweld cynnydd nas gwelwyd erioed o'r blaen yn nifer y mudiadau sy'n gwneud cais i ymaelodi. Ar ben hynny, mae'r Gynghrair wedi ethol Bwrdd newydd o Ymddiriedolwyr a fydd yn cwrdd ddechrau mis Medi i drafod cynllun gwaith manylach ar gyfer y 12 mis nesaf.

Mae aelodaeth y Gynghrair yn agored i unrhyw fudiad gwirfoddol sy'n gweithio i ddiwallu anghenion pobl sydd â chyflwr meddygol hirdymor ar sail Cymru-gyfan. Yn y cyd-destun hwn, mae cyflwr meddygol hirdymor yn cael ei ddiffinio fel un sy'n para'n hir, dros flwyddyn, yn gyffredinol, ac fe allai effeithio ar unrhyw agwedd ar fywyd rhywun. Gall symptomau fynd a dod.

Fel arfer, nid oes unrhyw wellhad ond yn aml ceir camau y gellir eu cymryd i gynnal a gwella ansawdd bywyd dioddefwyr.

Yn ôl arolwg diweddar ymhlith yr aelodau presennol, nodwyd eu bod eisoes wedi profi ystod o fanteision o fod yn aelodau o'r Gynghrair Cyflyrau Hirdymor gan gynnwys: gwell cyfleoedd rhwydweithio, cyfle i gysylltu â Gweision Sifil dylanwadol sy'n gweithio ar y Fframwaith Cyflyrau Cronig, rhwydwaith gwerthfawr o gefnogaeth a chyfnewid gwybodaeth a sefydlwyd drwy gwrdd ag aelodau eraill a rhannu profiadau â hwy, a chynnydd mawr yn y gallu i ddylanwadu ar bolisi ac ymgyrch iechyd. Mae ymaelodi â'r Gynghrair yn rhad ac am ddim.

Mae modd i unrhyw fudiad a hoffai fod yn rhan o'r Gynghrair yn y cyfnod cyffrous hwn gael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â Kate Cubbage (kcubbage@wcva.org.uk).

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ☎ 029 2043 1700 ✉ 029 2043 1701
🕷 www.wcva.org.uk ☎ 0800 2888 329

Cyhoeddiadau am wahaniaethu ar sail oedran

Yn Hydref 2006, cyflwynwyd newidiadau hanesyddol i gyfraith yn erbyn gwahaniaethu. Nid yw cyflogwyr yn gallu defnyddio oedran person i wahaniaethu yn ei erbyn mwyach.

Mae'n anghyfreithlon yn awr i gwmnïau a mudiadau drin gweithwyr ac ymgeiswyr am swydd yn wahanol oherwydd eu hoedran. Mae hefyd yn anghyfreithlon rhwystro pobl hŷn rhag cael hyfforddiant ac addysg.

Mae Deddf Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oed) 2006, sy'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a Deddf Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oed) (Gogledd Iwerddon) 2006 yn gwahardd hysbysebion swyddi sy'n pennu oedran a phenderfyniadau am gyflogaeth ar sail oedran.

Mae dau gyhoeddiad gan Dr Tamara Lewis ar gael gan Help the Aged yng Nghymru, ac maent yn rhoi cyflwyniad cyffredinol i gyfraith gwahaniaethu ar sail oed a sut i adnabod achosion posibl.

Mae *Sut i adnabod achosion o wahaniaethu ar sail oedran: pecyn cymorth i gynghorwyr*, yn llyfr cynhwysfawr, dwyieithog, 130 tudalen sydd ar gael gan Help the Aged yng Nghymru am £3.91 yn unig, i dalu cost postio a phacio, neu gallwch wneud apwyntiad i gasglu copi o'n swyddfa. Gallwch hefyd eu lawrlwytho am ddim, ar ffurf PDF, yn Gymraeg neu yn Saesneg oddi ar wefan Help the Aged: http://www.helptheaged.org.uk/en-cy/Campaigns/FightingAgeism/AgeDiscriminationInEmployment/ci_agelegwork2_290906.htm

Mae *Sut i adnabod achosion o wahaniaethu ar sail oedran: arweiniad i weithwyr*, ar gael fel ffeiliau PDF i'w lawrlwytho yn Gymraeg a Saesneg oddi ar wefan Help the Aged: http://www.helptheaged.org.uk/en-cy/Campaigns/FightingAgeism/AgeDiscriminationInEmployment/ci_agelegwork2_290906.htm

I archebu copi caled o *Sut i adnabod achosion o wahaniaethu ar sail oedran: pecyn cymorth i gynghorwyr*, cysylltwch â infocymru@helptheaged.org.uk. gyda'r geiriau 'Adviser's toolkit' yn y llinell testun, neu ffoniwch Help the Aged yng Nghymru ar 029 2034 6550.

Prosiect Cyfartal yn y Gwaith TUC Cymru

Mae Cyfartal yn y Gwaith yn cefnogi undebau llafur, cyflogwyr a gweithwyr i hyrwyddo cydraddoldeb yn y gweithle drwy ddatblygu seminarau, adnoddau a hyfforddiant wedi eu teilwra, heb sôn am wefan a deunyddiau ymgyrchu. Gwneir hyn hefyd drwy annog datblygu arferion da a'u rhannu drwy gynnal prosiectau peilot.

Mae'r prosiect yn rhoi sylw i'r chwe elfen o gydraddoldeb, sef hil, rhyw, anabledd, oedran, tueddfryd rhywiol a chred grefyddol. Lluniwyd y prosiect er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r 'anialdiroedd o ran cyngor' yng Nghymru, er mwyn darparu gwybodaeth gywir a gwasanaethau cefnogi i gyflogwyr a gweithwyr sy'n ymwneud â chamwahaniaethu a chydraddoldeb yn y gweithle.

Mae Cyfartal yn y Gwaith yn brosiect dwy flynedd, a gaiff ei ariannu gan yr Adran Diwydiant a Masnach ac fe'i rhedir gan TUC Cymru mewn partneriaeth â'r comisiynau cydraddoldeb.

Mae prosiectau peilot Cyfartal yn y Gwaith yn gyfle unigryw i gael cyngor, hyfforddiant a chefnogaeth rad ac am ddim, er mwyn galluogi'ch mudiad i fynd i'r afael ag unrhyw faterion cydraddoldeb yn y gweithle neu i wella eich arferion a'ch polisïau cyffredinol. Gellir cael canlyniadau megis cynhyrchiant uwch a staff wedi'u hysgogi'n well, llai o risg o orfod mynd i gyfraith a gwell enw fel cyflogwr a darparwr gwasanaeth poblogaidd.

Dyma enghreifftiau o brosiectau peilot: datblygu a gweithredu polisi gweithio oriau hyblyg a pholisi teg i'r teulu, er mwyn sicrhau y defnyddir yr holl staff yn y modd gorau posibl; asesu anghenion cefnogi a hyfforddiant i wella sgiliau yn y gweithle; a llunio polisi cyfle cyfartal a hyfforddiant sy'n sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth.

Dyma enghreifftiau o brosiectau peilot: datblygu a gweithredu polisi gweithio oriau hyblyg a pholisi teg i'r teulu, er mwyn sicrhau y defnyddir yr holl staff yn y modd gorau posibl; asesu anghenion cefnogi a hyfforddiant i wella sgiliau yn y gweithle; a llunio polisi cyfle cyfartal a hyfforddiant sy'n sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth.

Am wybod mwy am sut y gall Cyfartal yn y Gwaith fod o gymorth i'ch gweithle, cysylltwch â Swyddog Prosiect Cyfartal yn y Gwaith, Natasha Hirst ar nhirst@tuc.org.uk neu ar Ffôn Testun: 18002 02920 729235, neu www.equalatwork.org.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH (029 2043 1700 (029 2043 1701
www.wcva.org.uk (0800 2888 329

Arweiniad diwygiedig strategaethau cymunedol – ymgynghoriad Lywodraeth Cynulliad Cymru

Yn yr arweiniad yr ymgynghorir yn ei gylch gan Gangen Strategaeth a Pherfformiad Llywodraeth Leol, ceir cryn bwyslais ar ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned a gwasanaethau integredig sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion.

Ceir adran bwysig am y trydydd sector, sy'n datgan bod 'gan y trydydd sector rôl hanfodol wrth wella ansawdd bywyd cymunedau lleol, drwy ei arbenigedd mewn ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a darpar ddefnyddwyr; drwy gynllunio, comisiynu, caffael a gwerthuso gwasanaethau; drwy bartneriaethau cyflawni ar y cyd; drwy gyfrannu at economi gymysg o wasanaethau a thrwy ymwneud ag adolygu a chraffu ar wasanaethau'. Mae hi'n bwysig i'r trydydd sector ymateb i'r ymgynghoriad er mwyn sicrhau ei fod mewn sefyllfa gref mewn Byrddau Gwasanaethau Lleol, ymgysylltu â dinasyddion a darparu gwasanaethau dan y strategaeth gymunedol.

Yn ôl yr arweiniad, mae strategaeth gymunedol yn golygu'r 'strategaeth tymor hir ar gyfer yr ardal a'i holl boblogaeth' Ar ôl ei fabwysiadu, bydd yr arweiniad statudol diwygiedig hwn yn disodli'r arweiniad cyfredol a gyhoeddwyd yn 2001. Mae'r arweiniad diwygiedig hwn yn adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o sawl ffynhonnell: gan gynnwys y rheini sydd wedi deillio o gynllunio cymunedol hyd yn hyn; canfyddiadau adolygiad Beecham; ymgynghoriadau perthnasol megis y rheini ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol a gwaith nifer o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen.

Mae'r fframwaith a nodir yn yr arweiniad yn rhoi'r strwythur ar gyfer cyflawni blaenoriaethau polisi cenedlaethol a lleol allweddol - mae'r strategaeth gymunedol yn pennu'r weledigaeth 15 mlynedd ar gyfer yr ardal; bydd y Cytundeb Gwasanaeth Lleol yn blaenoriaethu ac yn amlinellu'r gwelliannau a rennir sydd i'w gwireddu o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus a sut y caiff y rhain eu cyflawni; a bydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gyrru'r holl broses.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn chwilio am eich sylwadau ar bosibilrwydd gwahodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu i greu dyletswydd ar bartneriaid sector cyhoeddus lleol i gydweithredu i ddatblygu a darparu strategaethau cymunedol. Nodwch, serch hynny, bod hyn yn dibynnu ar y Cynulliad yn cael y pwerau angenrheidiol yn y Mesur Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd.

O ran y cynigion craffu mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn bwriadu ceisio Pwerau Llunio Mesurau i ddod a chynigion ymlaen i ddiwygio trefniadau craffu, bydd y rhain yn amodol ar ymgynghoriad ar wahân ond ac ystyried eu heffaith debygol ar strategaethau cymunedol carai Llywodraeth Cynulliad Cymru wybod beth yw eich sylwadau cychwynnol yn awr.

Mae'r ddogfen ymgynghori ar arweiniad diwygiedig ar gyfer strategaethau cymunedol ar gael yn: http://new.wales.gov.uk/topics/localgovernment/partnership/commstrategies/communitystrategiesadvicenotes1/?lang=cy (Cymraeg)

Byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ddiolchgar am eich sylwadau ar ddrafft llawn yr arweiniad, y ddyletswydd bosibl i gydweithredu a'r cwestiynau penodol a godir yn y ddogfen erbyn dydd Gwener 23 Tachwedd. A fyddech chi'n anfon eich ymateb dros yr e-bost i communitystrategies@wales.gsi.gov.uk neu drwy'r post i Strategaethau Cymunedol, Cangen Strategaeth a Pherfformiad Llywodraeth Leol, Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays 2, Caerdydd CF10 3NQ.

Mae WCVA hefyd yn awyddus i ystyried eich sylwadau yn ei ymateb ei hun, felly a fyddech gystal ag anfon unrhyw sylwadau at Timothy Day, Cyfarwyddwr Gogledd Cymru a Pholisi erbyn 23 Hydref 2007, e-bost tday@wcva.org.uk.

Bydd rhifynau nesaf yr atodiad cenedlaethol hwn gan WCVA ar gael ar ddiwedd misoedd Tachwedd 2007 a Ionawr, Mawrth, Mai a Gorffennaf 2008.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr *Atodiad Cenedlaethol* gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.